# VFYRNWY FRANKTON GREEN GEN CYMRU

## Cysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau

Ymgynghoriad Statudol 19 Chwefror i 16 Ebrill 2025

# FFURFLEN ADBORTH

Mae Green GEN Cymru yn datblygu cysylltiad trydan newydd rhwng is-orsaf gasglu arfaethedig Grug y Mynydd ger Cefn Coch ym Mhowys i is-orsaf newydd y Grid Cenedlaethol yn Lower Frankton yn Swydd Amwythig. Byddai hyn yn ychwanegu capasiti trydan lleol sydd ei angen i ddatgloi ynni glân, adnewyddadwy ar gyfer cymunedau a busnesau.

Ar ôl ystyried yn ofalus yr adborth i'n hymgynghoriad cyntaf, yn ogystal ag asesiadau technegol ac amgylcheddol pellach, rydym wedi datblygu llwybr drafft, sy'n dangos lleoliadau arfaethedig y seilwaith sydd ei angen arnom. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich adborth ar y canlynol:

- Is-orsaf gasglu 132 kV newydd ger Cefn Coch, Powys, a elwir yn is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd trwy Barc Ynni Arfaethedig Llyn Lort i gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd selio pen cebl Cors y Carreg yn galluogi pontio rhwng ceblau tanddaearol a dargludyddion uwchben
- Tua 45km o linell newydd uwchben a gynhelir ar beilonau rhwyllog dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd selio pen cebl yng Nghors y Garreg i orsaf gyfnewid newydd
- Gorsaf gyfnewid ger Lower Frankton, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu o is-orsaf newydd posib sy'n cael ei datblygu gan y Grid Cenedlaethol i gysylltu â'r system drawsyrru trydan cenedlaethol 400kV bresennol
- Tir y bydd ei angen ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol, iawndal a gwella

Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, byddai angen tir dros dro hefyd ar gyfer gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys, er enghraifft, mannau gweithio ar gyfer offer a pheiriannau adeiladu, swyddfeydd safle, lles, storio a mynediad dros dro ar gyfer gwaith adeiladu.

Byddai angen dargyfeiriadau a / neu addasiadau o gyfleustodau trydydd parti hefyd i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r Prosiect.

Rydym wedi cyhoeddi ystod o wybodaeth er mwyn i chi gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion, ac i'ch helpu i roi adborth. Gweler y manylion ar y dudalen gefn am ragor o wybodaeth. Rydym yn eich annog i ddarllen y deunyddiau hyn cyn llenwi'r ffurflen hon. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan, ynghyd â rhagor o wybodaeth a map rhyngweithiol **https://greengenvyrnwyfrankton.com/cy/**

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Prosiect sy'n ceisio cydbwyso'r effeithiau ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio'n agos at ein cynigion, â'r gofynion polisi a thechnegol y mae'n rhaid i ni eu bodloni hefyd.

Gwyddom fod gan bobl farn wahanol ar seilwaith newydd, ac rydym yn cydnabod bod gan bobl bryderon am beilonau ar dirwedd yr ardal. Mae angen cydbwysedd gofalus er mwyn darparu'r seilwaith sydd ei angen arnom i ychwanegu capasiti'r grid, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a helpu'r wlad i drosglwyddo i gerbydau trydan a gwresogi.

Mae eich gwybodaeth yn werthfawr iawn i ni ac rydym yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych chi ar ein cynigion. Bydd yn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r effeithiau a'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o'r Prosiect, ac yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus ein cynigion cyn i ni wneud cais am gydsyniad datblygu. Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch chi wrth roi eich adborth.

Mae croeso i chi gysylltu â'n tîm ar **0800 915 3590** neu anfon e-bost at **info@greengenvyrnwyfrankton.com** os oes angen cymorth arnoch chi i roi adborth.

**Cyflwynwch eich adborth erbyn 23:59 ar 16 Ebrill 2025.**

## Gwybodaeth amdanoch chi

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Teitl: | Enw: | | | | |
| Grŵp oedran: | ☐ Dan 18 | ☐ 18-34 | ☐ 35-50 | ☐ 51-65 | ☐ Dros 65 oed |
| Cyfeiriad: | | | | | |
| Cod Post: | Cyfeiriad e-bost: | | | | |
| Ydych chi eisiau derbyn diweddariadau e-bost am y Prosiect? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Os ydych chi, pa sefydliad: | | | | | |
| Ydych chi'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir o fewn ffin y Prosiect? | | | | | |
| Os ydych chi, a yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Os nad ydym wedi cysylltu â chi, rhowch fanylion y tir hwn, gan gynnwys y cyfeiriad, os yw'n wahanol i'r uchod, er mwyn i ni allu cysylltu â chi. | | | | | |

GREEN GEN CYMRU

## Rhannu Adborth

Mae adborth rydym wedi'i dderbyn hyd yma gan bobl leol, tirfeddianwyr a sefydliadau arbenigol wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu ein cynigion, ochr yn ochr â'n hasesiadau ein hunain.

Mae ein cynigion yn dal yn agored i ddylanwad a hoffem gael eich adborth fel y gallwn barhau i edrych ar ffyrdd o gadw effeithiau mor isel ag y gallwn. Rydym yn awyddus i ddeall a oes gan bobl sylwadau ar effeithiau amgylcheddol posibl y cynigion neu syniadau ar gyfer lliniaru'r effeithiau hyn, ac a oes gennych sylwadau ar fanteision posibl y Prosiect. Dywedwch wrthym os oes unrhyw newidiadau y credwch y gallwn eu gwneud i wella'r cynigion neu leihau effeithiau ac, yn bwysig iawn, pam.

Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein holl gynigion, gan gynnwys:

- Is-orsaf gasglu 132 kV newydd ger Cefn Coch, Powys, a elwir yn is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd trwy Barc Ynni Arfaethedig Llyn Lort i gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd selio pen cebl Cors y Carreg yn galluogi pontio rhwng ceblau tanddaearol a dargludyddion uwchben
- Tua 45km o linell newydd uwchben a gynhelir ar beilonau rhwyllog dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg i orsaf gyfnewid newydd
- Gorsaf gyfnewid ger Lower Frankton, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu o is-orsaf newydd posib sy'n cael ei datblygu gan y Grid Cenedlaethol i gysylltu â'r system drawsyrru trydan cenedlaethol 400kV bresennol
- Tir y bydd ei angen ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol, iawndal a gwella

Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, byddai angen tir dros dro hefyd ar gyfer gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys, er enghraifft, mannau gweithio ar gyfer offer a pheiriannau adeiladu, swyddfeydd safle, lles, storio a mynediad dros dro ar gyfer gwaith adeiladu.

Byddai angen dargyfeiriadau a / neu addasiadau o gyfleustodau trydydd parti hefyd i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r Prosiect.

Dim ond adborth am gynigion y gallwn ei ystyried, ac nid themâu ehangach fel cynhyrchu ynni na pholisïau'r llywodraeth.

Rhowch adborth am ein cynigion yn unig. Po fwyaf o fanylion y gallwch eu darparu, y gorau y gallwn ddeall effeithiau posibl ein gwaith.

Rydym wedi trefnu'r llwybr drafft rydym ei ffafrio yn bum rhan. Os yw eich adborth yn ymwneud ag un o'r adrannau hyn, neu am leoliad penodol, rhowch wybod i ni.

## Mae sawl ffordd o ddarparu adborth ar y Prosiect.

Llenwi'r ffurflen adborth ar ein gwefan:
**https://greengenvyrnwyfrankton.com/cy/**

Anfon e-bost at
**info@greengenvyrnwyfrankton.com**

Llenwi copi caled o'r adborth, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori neu ar gais

Anfon adborth ysgrifenedig at
**RHADBOST GREEN GEN CYMRU V2F**

Byddwn yn edrych yn ofalus ar yr holl adborth a gawn, ac yn ei ddefnyddio i adolygu ein gwaith hyd yma, ac i lywio sut rydym yn datblygu'r Prosiect yn y dyfodol.

# ADRANNAU Y LLWYBR

**Rydym wedi trefnu ein haliniad llwybr manwl drafft yn bum adran i roi cyfle i gael adborth manylach.**

I gael rhagor o wybodaeth am bob adran llwybr, cyfeiriwch at ein llyfryn ymgynghori statudol.

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| **Cefn Coch i Langynyw** | **Llangynyw i Feifod** | **Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain** | **Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech** | **Llanymynech i Lower Frankton** |

## C1

**Rhan 1: Cefn Coch i Langynyw. A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r llwybr?**

Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliadau posib y peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif y peilonau (fel yr amlinellir ar ein map aliniad llwybr drafft manwl rhyngweithiol) lle bo modd.

## C2

**Rhan 2 : Llangynyw i Feifod. A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r llwybr?**

Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliadau posib y peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif y peilonau (fel yr amlinellir ar ein map aliniad llwybr drafft manwl rhyngweithiol) lle bo modd.

## C3 Rhan 3 : Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain. A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r llwybr?

Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliadau posib y peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif y peilonau (fel yr amlinellir ar ein map aliniad llwybr drafft manwl rhyngweithiol) lle bo modd.

## C4 Rhan 4 : Llansantffraid-ym-Mechian i Lanymynech. A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r llwybr?

Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliadau posib y peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif y peilonau (fel yr amlinellir ar ein map aliniad llwybr drafft manwl rhyngweithiol) lle bo modd.

## C5 Rhan 5 : Llanymynech i Lower Frankton. A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r llwybr?

Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliadau posib y peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif y peilonau (fel yr amlinellir ar ein map aliniad llwybr drafft manwl rhyngweithiol) lle bo modd.

# EICH SYLWADAU AR EIN CYNIGION

**C6** **A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem ei hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion nad ydych wedi'u cynnwys uchod? Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch chi.**

# GWYBODAETH AM YR YMGYNGHORIAD

**C7** **Sut gwnaethoch chi glywed am yr ymgynghoriad? (ticiwch fel bo'n briodol)**

- ☐ Gwybodaeth yn y post
- ☐ Newyddion neu sylw yn y cyfryngau
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi clywed gan rywun arall
- ☐ Man gwybodaeth leol
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**C8** **A oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich profiad o'r ymgynghoriad?**

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae **Green Generation Networks Cymru Limited** (cwmni o fewn y Windward Energy Group) wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pryd bynnag y byddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w defnyddio yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

**Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio gwybodaeth a gasglwn amdanoch chi?**

Byddwn yn defnyddio'ch data personol a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn at ein dibenion busnes cyfreithlon, gan gynnwys:

- I ddadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad
- Cynhyrchu Adroddiad Ymgynghori, yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ymatebion (ni chaiff unigolion eu nodi yn yr Adroddiad)
- I ysgrifennu atoch gyda diweddariadau am ganlyniadau'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill os ydych wedi optio i mewn i dderbyn y diweddariadau hyn
- Cadw cofnodion cyfredol o'n cyfathrebiadau ag unigolion a sefydliadau

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan y derbynwyr canlynol (neu bydd ar gael iddynt) i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a gawn:

- Green GEN Cymru (a all gynnwys unrhyw is-gwmni a rhiant-gwmnïau).
- Yr Arolygiaeth Gynllunio (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Prosiect Green GEN Fyrnwy Frankton).
- Awdurdodau cyfreithiol gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu gyrff rheoleiddio fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ganiatáu i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Yr ysgrifennydd gwladol perthnasol.
- Ymgynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys ein cynghorwyr cyfreithiol a chwmnïau ac ymgynghorwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan mewn cysylltiad â phrosiect Green GEN Vyrnwy Frankton.

**Pa hawliau sydd gennyf dros fy nata personol?**

O dan delerau GDPR y DU, mae gennych hawliau penodol ynghylch sut mae Green GEN Cymru yn cadw ac yn defnyddio eich data personol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein datganiad preifatrwydd data llawn yn **www.greengencymru.com/privacy-policy**

## Cysylltwch


**info@greengen vyrnwyfrankton.com**

**0800 915 3590**

**RHADBOST Green GEN Cymru V2F**


Rydym ni wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy i greu'r llyfryn hwn.

GREEN GEN CYMRU